



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Arolygiad o Wasanaethau *Plant*

yng Nghyngor Sir y Fflint

# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Crynodeb	4
Argymhellion	6
Canfyddiadau	
Thema 1: Mynediad at Wasanaethau	7
Thema 2: Asesu	12
Thema 3: Diogelu a Rheoli Gofal	16
Thema 4: Arweinyddiaeth a Llywodraethu	22
Atodiad	28

# Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2015. Edrychodd arolygwyr yn fanwl ar brofiadau plant a phobl ifanc oedd angen neu sy'n dal angen cymorth a/neu amddiffyniad.

Gwnaeth yr arolygiad hefyd ystyried ansawdd y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer plant a theuluoedd, gan gynnwys sampl fach o blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal, neu a oedd wedi derbyn gofal. Darllenodd arolygwyr ffeiliau achos, a gwnaethant gyfweild â staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Lle roedd modd, a lle roedd yn briodol, gwnaethant siarad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Yn ogystal, gwnaeth arolygwyr werthuso'r hyn a wyddai'r cyngor ynglŷn â'i berfformiad ei hun, a'r gwahaniaeth yr oedd yn ei wneud i'r bobl yr oedd yn ceisio eu helpu, amddiffyn ac edrych ar eu hôl.

Roedd y cyngor wedi profi cyfnod o newid sylweddol, ac ar adeg yr arolygiad, roedd wedi cyhoeddi adolygiad o wasanaethau plant, gyda'r nod o lywio ad-drefniad o'r gwasanaeth. Roedd yr arolygwyr yn falch i nodi bod yr uwch-reolwyr yn ymroddedig i wneud gwelliannau o ran darparu cymorth ac amddiffyniad i blant a theuluoedd.

Mae'r argymhellion a wnaed ar dudalen 6 yr adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol lle dylai'r gwaith datblygu ganolbwyntio ar ôl yr arolygiad. Eu nod yw cynorthwyo Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i aelodau etholedig Sir y Fflint, staff, asiantaethau partner, a defnyddwyr gwasanaeth a gyfrannodd at yr adroddiad hwn.

# Crynodeb

## Thema 1: Mynediad at Wasanaethau

Nid oedd trefniadau ymyrraeth gynnar ac atal y cyngor wedi cael eu datblygu digon, ac roedd hyn yn effeithio ar ba mor amserol oedd y cymorth cynnar. Roedd y cyngor yn ymatebol pan oedd arwyddion brys bod plentyn mewn perygl, ond nid oedd cysondeb o ran pa mor amserol y gwneid cynnydd ar gyfathrebiadau lle nad oedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol. Nodwyd nad oedd nifer o blant hŷn a phobl ifanc a atgyfeiriwyd wedi cael asesiad prydlon neu ymyrraeth gynnar a phriodol. Roedd y cyngor wrthi'n adolygu cydnerthedd y trefniadau ar gyfer cyfathrebiadau cyntaf.

## Thema 2: Asesu

Cynhelid trafodaethau strategaeth yn unol â'r canllawiau, ond nid oeddent yn cynnwys gwybodaeth gan yr holl bartneriaid perthnasol yn rheolaidd. Nid oedd ansawdd a phrydlondeb ymholiadau gwarchod plant yn gyson.

Gwelwyd bod ansawdd yr asesiadau'n amrywio, a phan oeddent yn dda, roedd tystiolaeth o ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i lywio'r dadansoddiad. Fodd bynnag, roedd yr arferion gwaith cymdeithasol da a welwyd yng nghynnwys yr asesiadau wedi'i danseilio gan strwythur a dyluniad y broses, gan gynnwys trefniadau trosglwyddo rhwng y timau. Roedd dyblygu prosesau asesiadau a newidiadau yn y gweithiwr cymdeithasol wedi arwain at leihau symbyliad, gan effeithio ar ymgysylltiad teuluoedd.

## Thema 3: Diogelu a Rheoli Gofal

Cynhaliwyd yr holl waith amddiffyn plant gan weithwyr cymwysedig. Nid oedd y penderfyniad i drefnu cynhadledd amddiffyn plant bob amser yn amserol, ond unwaith iddo gael ei wneud, roedd y cynadleddau ac adolygiadau hynny'n cael eu rheoli'n dda ac yn canolbwyntio'n briodol ar y plant. Roedd ansawdd y cynlluniau amddiffyn plant a welwyd yn amrywio, ond roeddent yn foddhaol ar y cyfan, ac yn cynnwys rhai a oedd yn dda. Roedd angen cryfhau gwaith grŵp craidd a chynllunio amddiffyn plant er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth fwy cyson o'r risgiau i'r plentyn a nodwyd, y broses sydd ei hangen, a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Roedd angen i ddull yr awdurdod o asesu risg a rheoli risg gael ei gyfathrebu'n fwy effeithiol, a'i ddeall yn well gan asiantaethau partner. Roedd gan yr holl blant gynllun gofal, ond nid oedd ansawdd y cynllun bob amser yn edrych tuag at y dyfodol, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, nac yn adlewyrchu uchelgais y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Roedd gwasanaethau'n cael eu darparu i deuluoedd, ac roedd gwaith uniongyrchol yn cael ei wneud, ond nid oedd hyn bob amser yn amlwg yng nghofnod y ffeil achos, ac adroddwyd ei fod yn ddibynnol ar y capasiti o ran adnoddau. Roedd y cyngor wedi datblygu perthynas glir rhwng yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus, amddiffyn plant, a'r broses ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Thema 4: Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Roedd trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol. Roedd gan yr uwch-arweinwyr a'r swyddogion ymrwymiad ar y cyd i wella'r trefniadau diogelu, ac roeddent wedi ceisio gwella hyn yn eu blaenoriaethau strategol. Roedd angen i gynlluniau strategol gael eu dosbarthu'n well drwy wasanaethau plant, a'u trosi'n strategaeth effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da a gwell ganlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd yn rhaid i'r fframwaith hwn gael ei lywio gan waith dadansoddi parhaus o'r cymhlethdodau a'r risgiau

syifaenol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth. Mae angen i'r cyngor ychwanegu at y perthnasau sydd ganddo gydag asiantaethau partner er mwyn sicrhau perchnogaeth a rennir o'r cyfeiriad strategol, a hefyd i sicrhau'r ysgogiad gweithredol sydd ei angen i wella gwasanaethau a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Roedd uwch-arweinwyr yn gynyddol wybodus ynghylch perfformiad, ac roeddent yn ceisio sicrhau eu bod yn gallu goruchwyllo gwaith rheng flaen ac ansawdd gwasanaethau'n well. Roedd y fforwm plant ar waith, ac roedd wedi dechrau codi proffil plant sy'n derbyn gofal ledled y cyngor.

Darparwyd gwasanaethau gan weithlu â chymwysterau addas a oedd yn brofiadol a medrus ac yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc lleol a'u teuluoedd. Gwelwyd bod y rheolwyr yn hygyrch, ond mae angen goruchwyliaeth gryfach o arferion sy'n cynorthwyo'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau sy'n dwyn canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

## Argymhellion

1. Fel blaenoriaeth, dylai'r cyngor wneud rhagor o gynnydd ar ei ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ymyrraeth gynnar a fydd yn darparu gwasanaethau integredig ac yn rhoi cymorth cynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd.
2. Dylai'r cyngor roi systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y trothwyon ar gyfer asesiadau'n gyson ar draws y gwasanaeth, a bod y staff a'r partneriaid yn eu deall.
3. Dylid gwneud trefniadau aml-asiantaeth i adolygu atgyfeiriadau a wnaed mwy nag unwaith, ac i sicrhau ansawdd penderfyniadau.
4. Mae angen gwella ansawdd a phrydlondeb asesiadau a chynlluniau.
5. Dylai dull gwasanaethau plant o asesu risg a rheoli risg gael ei rannu a'i ddeall yn fwy effeithiol gan asiantaethau partner.
6. Dylai'r cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i nod o adolygu strwythur gwasanaethau plant, ac o sicrhau bod trefniadau ar waith i helpu staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau i ymgysylltu'n briodol.
7. Dylai'r cyngor sicrhau bod arweinyddiaeth reolaethol wedi'i halinio'n ddigonol â'r profiad proffesiynol sydd ei angen i reoli cymhlethdodau gwahanol feysydd y ddarpariaeth weithredol.
8. Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i wasanaethau plant barhau, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen i'r gwasanaeth yn cael blaenoriaeth, a bod cyflymder y gwaith o wella yn cael ei gynnal.
9. Dylai'r fforwm plant barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod canlyniadau uchelgeisiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chefnogi dulliau gwell o gywain barn defnyddwyr gwasanaeth.
10. Dylai'r strategaeth gweithlu gynnwys rhaglenni arweinyddiaeth a datblygu, er mwyn meithrin cydnerthedd ymysg y tîm rheoli gweithredol.
11. Rhaid i'r fframwaith sicrhau ansawdd drafft gael ei gyflwyno'n systematig ledled y gwasanaeth. Dylai trefniadau rheoli perfformiad a threfniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys craffu ar y galw am y gwasanaeth ac archwiliadau rheolaidd o ansawdd yr arferion, gael eu mewnblannu ar draws y gwasanaeth.
12. Dylid adolygu ansawdd yr oruchwyliaeth yn gyson i sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti ar gael er mwyn ei rheoli'n effeithiol.

# Canfyddiadau

## Thema 1: Mynediad at Wasanaethau

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trothwyon rhwng ymyriadau cynnar (gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cyfeirio) a gwasanaethau cymdeithasol statudol yn cael eu deall yn briodol ac yn gweithredu'n effeithiol.

### Canfyddiadau allweddol

- Nid oedd trefniadau ymyrraeth gynnar/atal y cyngor wedi cael eu datblygu digon, ac roedd hyn yn effeithio ar amseroldeb cymorth cynnar.
- Roedd yr awdurdod wedi cynnal perfformiad da yn barhaus mewn perthynas â nifer yr atgyfeiriadau lle gwnaed penderfyniad ymhen un diwrnod gwaith.
- Nid oedd goruchwyliaeth gan yr uwch-reolwyr a'r broses o sicrhau ansawdd penderfyniadau sgrinio yn ddigonol, ac roedd diffyg cydnerthed yn y trefniadau ar gyfer cyfathrebiadau cyntaf.
- Nid oedd system wybodaeth y cyngor yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol o gysylltiadau blaenorol gan deuluoedd â gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd bwriad i'r cronolegau a'r genogramau.
- Nid oedd polisi'r cyngor ar drothwyon, penderfyniadau sgrinio a rheoli atgyfeiriadau yn cael ei rannu digon na'i ddeall gan bartneriaid.
- Nid oedd y gweithwyr proffesiynol yn cael digon o wybodaeth nac yn cael digon o gyfathrebu ynglŷn â chanlyniad yr atgyfeiriadau a wnaethant i'r awdurdod.
- Nid oedd cysondeb o ran gwneud cynnydd ar gyfathrebiadau lle nad oedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, ac nid oedd y cymorth a gynigid i deuluoedd bob amser yn amserol.
- Nid oedd anghenion pobl ifanc 11 oed a hŷn bob amser yn cael eu hasesu'n effeithiol, ac roedd hyn yn eu rhwystro rhag cael cymorth ataliol amserol.
- Nid oedd model dyletswyddau ac asesu'r awdurdod, a oedd yn cynnwys tri phod, yn ystyried yn ddigonol yr angen i blant, pobl ifanc a theuluoedd gael dilyniant a chysondeb o ran eu gweithiwr cymdeithasol.

## 1. Esboniad o'r canfyddiadau

1.1 Ym mis Tachwedd 2014, gwnaeth y cyngor adleoli ei staff gwasanaethau plant gweithredol, gan gynnwys maethu, i un lleoliad a leolir yn y Fflint. Nod y symudiad hwn oedd hybu hunaniaeth y gwasanaeth cyfan a gwella cydweithio ar draws y timau. Fodd bynnag, gwnaeth y staff godi pryderon nad oedd y trefniadau swyddfa newydd yn gwneud digon i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu mynd at wasanaethau'n uniongyrchol ac yn hawdd. Gwnaeth rhieni a staff hefyd nodi bod mwy o anawsterau ac oedi o ran cysylltu â gwasanaethau plant dros y ffôn, o ganlyniad i'r ymatebion awtomatig a'r ffaith bod ffonau sydd heb gael eu hateb yn cael eu llwybro drwy ddesg ddyletswydd brysur.

## Dyfyniad gan aelod o staff

*“Mae'r system ffonau yn achosi problemau pan mae pobl yn ceisio cysylltu â gwasanaethau plant. Mae gweithiwr cymdeithasol y plant yn y tîm dyletswydd yn newid mewn cyfnod byr.”*

1.2 Roedd trefniadau'r cyngor i dderbyn a rheoli atgyfeiriadau i wasanaethau plant yn Sir y Fflint wedi bod ar waith am dros ddwy flynedd. Roedd y tîm dyletswydd ac asesu yn cynnwys tri phod, ac roedd gan bob un ohonynt gwahanol ddyletswyddau gwasanaeth, ac ar y cyfan roeddent yn gweithredu'n annibynnol o'i gilydd. Roedd uwch-ymarferydd wedi'i benodi i reoli pob un o'r podiau o ddydd i ddydd. Roedd yr uwch-ymarferwyr yn cael eu rheoli gan reolwr dyletswydd ac asesu profiadol a oedd â chyfrifoldeb cyffredinol am y tîm, gan gynnwys perfformiad a llif gwaith.

1.3 Newidiwyd trefniadau rheoli'r tîm dyletswydd ac asesu sawl gwaith yn ddiweddar, ac roedd y tri uwch-ymarferydd yn newydd i'w swyddi presennol. Fodd bynnag, roedd y trefniadau ar gyfer cynefino/hyfforddiant strwythuredig a chymorth ychwanegol cychwynnol yn annigonol.

1.4 Nodwyd mai un o gryfderau allweddol trefniadau'r tîm dyletswydd ac asesu oedd y berthynas weithio agos rhwng yr uwch-ymarferydd a'r gweithwyr cymdeithasol, a'r ffaith bod cymorth ar gael gan y rheolwyr. Fodd bynnag, roedd newidiadau yng nghyfrifoldebau rheolwr y tîm i gynnwys cyfrifoldebau rheoli ychwanegol a chyflenwi ar gyfer uwch-ymarferwyr a oedd â contract oriau llai wedi cael effaith ar y capasiti rheoli yn gyffredinol yn y tîm. Dywedodd y staff fod rheolwyr, gan gynnwys rheolwyr gwasanaethau, yn hygyrch, ond roedd y disgwyliad y byddai bylchau yn yr amser ar gyfer rheoli yn gallu cael eu hamsugno gan y sefydliad presennol wedi cael effaith negyddol ar argaeledd rheolwyr.

1.5 Nododd yr arolygwyr nad oedd goruchwyliaeth y rheolwyr o'r trefniadau mynediad yn ddigon i roi sicrwydd i'r awdurdod y byddai plant a theuluoedd yn derbyn y cymorth amserol yr oedd ei angen arnynt.

1.6 Rheolid trefniadau'r cyngor ar gyfer cyfathrebiadau cyntaf gan y pod cyntaf. Roedd y pod hwn yn cynnwys uwch-ymarferydd amser llawn a dau gynorthwy-ydd gwasanaethau plant heb gymwysterau ond â phrofiad, ac roedd ganddo gyfrifoldeb i sgrinio'r holl gyfathrebiadau newydd, ac i reoli'r trefniadau cychwynnol ar gyfer y strategaeth amddiffyn plant. Câi achosion y nodwyd bod angen ymholiadau Adran 47 arnynt eu trosglwyddo i'r ail bod, ond gallent gael eu clustnodi'n uniongyrchol gan yr uwch-ymarferydd yn y pod cyntaf i weithiwr cymdeithasol yn yr ail bod, a chafodd yr achosion hynny yr oedd angen asesiad cychwynnol arnynt eu trosglwyddo i'r trydydd pod. Câi'r achosion hynny eu trosglwyddo eto rhwng podiau dau a thri cyn cynhadledd achos, neu er mwyn cael eu hasesu'n barhaus. Nid oedd gan yr uwch-ymarferwyr lawer o oruchwyliaeth na rheolaeth dros y llif gwaith cyffredinol ar draws y tîm dyletswydd ac asesu.

1.7 Canfu'r arolygwyr fod y trefniadau trosglwyddo rhwng y tri phod wedi cael eu dylunio i helpu'r timau dyletswydd ac asesu i allu rheoli'r broses sgrinio, i drefnu trafodaethau strategol cychwynnol amserol, ac i glustnodi ymholiadau Adran 47 yn brydlon. Fodd bynnag, ar ôl y trosglwyddiad cychwynnol, roedd cynnydd a rheolaeth yr achos yn mynd yn dameidiog, a nododd yr arolygwyr fod oedi o ran clustnodi wrth i achosion symud rhwng y podiau. Canolbwyntid hefyd ar gwblhau gwahanol brosesau asesu, yn hytrach nag ar ddadansoddiad, ymyrraeth a chymorth amserol.

1.8 Gwelwyd bod y trwygyrch gwaith cynnar yn rhwystro gweithwyr cymdeithasol rhag treulio amser gyda theuluoedd, gan arwain at golli cyfleoedd i wneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd a oedd wedi profi gormod o newidiadau cynnar o ran gweithiwr cymdeithasol, ac yn aml digwyddodd



hynny pan oedd y teulu mewn argyfwng. Gwnaeth y staff adleisio'r pryderon hyn, gan nodi hefyd bod trosglwyddo achosion rhwng y podiau'n lleihau perchenogaeth ar benderfyniadau, ac yn achosi dulliau rheoli sy'n osgoi risg.

1.9 Roedd yr awdurdod wedi profi twf flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer yr atgyfeiriadau, o 1,220 (2013/14) i 1,825 (2014/15), a sawl amrywiad anesboniadwy yn nifer y cyfathrebiadau yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y cynnydd annisgwyl hwn roi'r gwasanaeth o dan bwysau ychwanegol. Er gwaethaf hyn, gwnaeth yr awdurdod barhau i berfformio'n dda yn gyson mewn perthynas â nifer yr atgyfeiriadau y gwnaed penderfyniad arnynt o fewn un diwrnod gwaith.

1.10 Roedd nifer yr achosion o ail-atgyfeirio, fodd bynnag, wedi cynyddu o 158 (2013/14) i 478 (2014/15), ac roedd yn glir o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod, ac o'r achosion a adolygwyd gan yr arolygwyr, bod rhai teuluoedd wedi cael mwy nag un cyfathrebiad cyn i achos symud ymlaen i'r cam asesu.

1.11 Er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn nifer y cyfathrebiadau/atgyfeiriadau yn gyffredinol, gwnaeth y nifer a glustnodwyd ar gyfer asesiad cychwynnol aros tua'r un lefel, ac roedd newid o lai na 4% dros y pedair blynedd diwethaf. Roedd angen i'r cyngor ddatblygu ymagwedd fwy cydlynol i gasglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol am berfformiad i ddeall yn well sut i weithredu'r drws ffyrnt yn ddiogel ac yn effeithiol (gwasanaeth dyletswydd ac asesu). Byddai gwybodaeth o'r fath hefyd yn helpu i lywio bwriadau'r cyngor o ran datblygu a chomisiynu gwasanaethau mewn perthynas â gwasanaethau ataliol.

1.12 Nid oedd trefniadau ymyrraeth gynnar yr awdurdod i gefnogi teuluoedd wedi cael eu datblygu'n ddigonol. Roedd y trefniadau presennol ar gyfer y Tîm o Amgylch y Teulu, sy'n rhan o'r portffolio addysg a phobl ifanc, o dan bwysau, gyda swyddi gwag a rhestr aros ar gyfer gwasanaethau. Mynegodd staff a phartneriaid rwystredigaeth ynghylch y ffaith nad oedd dull cydgysylltiedig o roi cymorth cynnar i deuluoedd, am eu bod o'r farn y byddai hyn yn fuddiol iawn i deuluoedd, ac y byddai'n lleihau'r angen am wasanaethau statudol. Roedd y cyngor bellach wedi nodi bod angen datblygu fframwaith ymyrraeth gynnar fel blaenoriaeth, a byddai'r gwaith o reoli'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cael ei drosglwyddo i'r adran gwasanaethau cymdeithasol ym mis Medi 2015. Wrth ddatblygu fframwaith ymyrraeth gynnar, bydd yn rhaid ystyried a chyfrannu at yr adolygiad arfaethedig o wasanaethau plant, er mwyn sicrhau ymagwedd gydlynol ar gyfer y gwasanaeth cyfan.

1.13 Gwnaeth asiantaethau partner nodi plant a phobl ifanc a oedd angen amddiffyniad, a gwnaed atgyfeiriadau amserol i wasanaethau cymdeithasol plant. Gwnaeth partneriaid proffesiynol fynegi rywffaint o rwystredigaeth ynghylch y trothwyon, ond yn gyffredinol gwnaethant groesawu ansawdd y cyngor cynnar a roddid gan y swyddog dyletswydd, a dywedwyd bod ymateb cychwynnol gwasanaethau plant yn adeiladol, a bod camau diogelu priodol yn cael eu cymryd.

### Dyfyniad gan asiantaeth bartner

*"Mae'r gwasanaeth dyletswydd yn gweithio'n dda unwaith i chi gael i mewn i'r gwasanaeth, ond nid yw mor hawdd â hynny i gael i mewn iddo."*

1.14 Er gwaethaf y ffaith eu bod wedi adrodd bod ganddynt hyder yng ngwasanaethau plant, nododd y partneriaid fod diffyg eglurder yn aml ynghlân â sut y gwnaed penderfyniadau am achosion newydd, a dywedasant wrth yr arolygwyr nad oeddent yn cael digon o wybodaeth am

ganlyniadau atgyfeiriadau. Dywedwyd wrth yr arolygwyr bod y partneriaid weithiau'n herio'r staff dyletswydd sydd heb gymwysterau, a'u bod yn ceisio trafod penderfyniadau ynglŷn â throthwyon â'r uwch-ymarferydd yn uniongyrchol.

1.15 Nododd rhai asiantaethau nad oeddent yn deall sut roedd y system podiau'n gweithio, a bod trosglwyddo achosion yn gyflym rhwng timau'n achosi ansicrwydd ynglŷn â phwy y dylid cysylltu â nhw i olrhain atgyfeiriadau neu i gael y wybodaeth ddiweddaraf amdanynt. Gwnaeth y partneriaid hefyd dynnu sylw at wahaniaethau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth gweithwyr cymdeithasol ar draws y timau ganlyn gwybodaeth a'u cynnwys mewn asesiadau dilynol, neu'n eu hysbysu am y canlyniadau.

1.16 Roedd yr atgyfeiriadau, a welwyd gan arolygwyr, a dderbyniwyd gan asiantaethau eraill yn cynnwys digon o wybodaeth i helpu i wneud penderfyniadau cychwynnol. Roedd y defnydd a wneid o ffurflenni atgyfeirio aml-asiantaeth yn anghyson, ond ymatebid i atgyfeiriadau llafar yn ysgrifenedig yn bennaf. Byddai'r ffurflen atgyfeirio aml-asiantaeth yn elwa ar gael ei diweddarau. Roedd gweithwyr gwasanaethau plant a oedd yn derbyn atgyfeiriadau yn rhagweithiol o ran casglu'r wybodaeth ychwanegol yr oedd ei hangen, ac yn hyderus o ran herio partneriaid ynglŷn ag unrhyw ddiffygion o ran ansawdd neu amseroldeb y wybodaeth atgyfeirio.

1.17 Gwnaeth nifer y cyfathrebiadau gan yr heddlu (CID16) i adrodd achosion o gam-drin domestig aros yn uchel yn gyson, a gwnaeth hyn arwain at bwysau ychwanegol ar gyfer y tîm dyletswydd. Roedd ansawdd yr atgyfeiriadau gan yr heddlu a welwyd yn amrywio, ond roedd enghreifftiau mwy diweddar yn cynnwys crynodeb defnyddiol o gysylltiadau blaenorol â'r teulu a dadansoddiad o'r risg ymddangosiadol. Mae gwasanaethau plant yn gweithredu protocol cam-drin domestig sy'n golygu bod pob digwyddiad cyntaf o gam-drin domestig yn arwain at anfon llythyr at y teulu, fel ymateb lleiaf – caiff adroddiadau dilynol eu cyfeirio at y gynhadledd asesu risg aml-asiantaeth. Yn ystod y cyfweiliadau, roedd yn glir nad oedd yr holl staff yn ymwybodol o'r protocol hwn nac o'r canlyniadau o'r herwydd. Hefyd, roedd diffyg gwybodaeth ynglŷn ag effaith y protocol ar y gyfradd digwyddiadau/atgyfeiriadau a wnaed mwy nag unwaith.

1.18 Roedd y staff dyletswydd yn gwneud gwiriadau cefndir perthnasol gydag asiantaethau eraill, ond canfu'r arolygwyr nad oedd yn hawdd dod o hyd i'r rhain ar y system electronig yn aml. Nid oedd y system wybodaeth electronig yn ei wneud yn bosibl cael trosolwg hygyrch o waith ymgysylltu gwasanaethau cymdeithasol â'r teulu, ac, yn ddibynnol ar yr achos, nid oedd gwybodaeth yn cael ei thynnu o ffeil y plentyn dan sylw i ffeil unrhyw siblingiaid perthnasol. Gallai hyn arwain at beidio â rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth sylweddol fel rhan o bennu risg. Nid oedd y genogramau a welwyd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, ac nid oedd y cronolegau'n bwrpasol. Roedd grŵp defnyddwyr sefydledig ar waith er mwyn helpu i hybu gwelliannau gweithrediadol i'r system wybodaeth electronig, ac roedd problemau dethol yn cael sylw ac roedd gofynion y gwasanaeth i'r dyfodol yn cael eu hadolygu.

1.19 Pan gafwyd cyfathrebiadau lle roedd arwyddion amlwg bod plentyn neu blant mewn perygl neu wedi dioddef niwed sylweddol, canfu'r arolygwyr fod penderfyniadau prydlon wedi eu gwneud, a bod camau cychwynnol wedi eu cymryd i amddiffyn y plentyn. Cynhelid archwiliadau amddiffyn plant, yn unol â'r canllawiau, ar ôl trafodaeth strategaeth. Yn yr achosion a adolygwyd, ni welodd arolygwyr unrhyw enghreifftiau lle roedd plant a theuluoedd wedi bod yn destun archwiliadau amddiffyn plant cychwynnol yn ddiangen.

1.20 Pan gafwyd cyfathrebiadau lle nad oedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, nid oedd penderfyniadau i drosglwyddo'r cyfathrebiadau i'r broses atgyfeirio yn amserol nac yn briodol bob tro. O ganlyniad i hyn, roedd posibilrwydd bod rhai plant wedi bod yn agored i risg am gyfnod rhy hir, ac nid oedd teuluoedd bob amser yn cael cynnig cymorth yn ddigon cynnar.

1.21 Mewn rhai o'r achosion hyn, gwelwyd tystiolaeth o orddibyynu ar hunan-adrodd, ac roedd gweithwyr yn gwneud penderfyniadau sgrinio yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd drwy siarad â thelueoedd dros y ffôn, ac nid oedd y wybodaeth hon wedi cael ei dilysu na'i herio digon. Gwelwyd hyn yn benodol mewn perthynas â phryderon ynghylch trais cam-drin domestig.

1.22 Gwelodd arolygwyr enghreifftiau o gau achosion lle roedd arwyddion clir bod angen cymorth a chefnogaeth ar blant a thelueoedd, er nad oedd arwyddion amlwg bod lefel eu hanghenion yn cyrraedd y trothwy ar gyfer niwed sylweddol. Serch hynny, dylid bod wedi trosglwyddo'r achosion hyn i'r cam asesu cyn penderfynu ar sut i ddarparu cymorth a phwy all ddarparu'r cymorth mwyaf effeithiol. Canlyniad hyn oedd nad oedd plant a thelueoedd yn cael cymorth pan ddylent fod wedi ei dderbyn. Nodwyd bod trothwyon yn ymwneud â'r glasoed wedi eu pennu'n arbennig o 'uchel', ac yn aml roedd y pryderon yn cael eu lleihau. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau lle nad oedd cyfathrebiadau yn ymwneud â phobl ifanc a oedd yn byw â'u rhieni ac a oedd ag iechyd meddwl gwael a/neu broblem camddefnyddio sylweddau yn cael eu hasesu, ac roedd hyn yn eu rhwystro rhag cael cymorth amserol.

1.23 Roedd y cyngor wedi cydnabod yr angen i ddiweddarau ei bolisi a'i ganllawiau ar gyfer ymyrryd, a'r angen i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu ac atgyfnerthu dealltwriaeth a rennir o drothwyon.

1.24 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith ar gyfer ymateb i atgyfeiriadau y tu allan i oriau gwaith cyffredin. Roedd gan y tîm dyletswydd argyfwng fynediad at system wybodaeth electronig y cyngor, ac roedd gan yr uwch-ymarferydd systemau ar waith i flaenoriaethu achosion a atgyfeiriwyd gan y gwasanaeth tîm dyletswydd argyfwng.

1.25 Gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth dda bod yr uwch-ymarferydd wedi cynnal goruchwyliaeth, a'i fod wedi llofnodi penderfyniadau sgrinio a oedd yn cynnwys sylwadau. Fodd bynnag, roedd angen i oruchwyliaeth gyffredinol y rheolwyr o'r trefniadau mynediad gael ei chryfhau i gynnwys archwiliad rheolaidd o'r ffeiliau achos er mwyn sicrhau rheolaeth well o ansawdd a chysondeb arferion. Byddai'r cyngor hefyd yn elwa ar ddatblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid aml-asiantaeth weithredol, a phrotocol clir ar gyfer rheoli achosion o atgyfeirio mwy nag unwaith.

## Thema 2: Aesu

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Caiff plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed, neu sy'n debygol o fod mewn perygl o niwed neu angen cymorth, eu canfod a'u hamddiffyn.

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd trafodaethau strategaeth yn cael eu rheoli'n unol â'r canllawiau.
- Nid oedd trafodaethau strategaeth yn cynnwys rhannu gwybodaeth â'r holl asiantaethau allweddol fel mater o drefn.
- Roedd ansawdd ac amseroldeb yr ymholiadau amddiffyn plant a welwyd yn anghyson.
- Nid oedd yr asesiadau bob amser yn sicrhau bod dadansoddiad holistaidd o anghenion/risg o'r dechrau un, ac roedd hyn yn cael effaith ar y gallu i wneud penderfyniadau'n amserol ac ar y cymorth a gynigid i deuluoedd.
- Roedd oedi i drosglwyddo achosion, dyblygu prosesu asesiadau, a newidiadau o ran y gweithiwr cymdeithasol wedi arwain at lai o symbyliad, ac roedd hyn yn effeithio ar lefel ymgysylltu teuluoedd.
- Roedd arferion gwaith cymdeithasol da wedi eu hadlewyrchu yng nghynnwys yr asesiadau, ond yn aml roedd hyn wedi'i danseilio gan strwythur a dyluniad y system.
- Yn aml, roedd asesiadau'n mynegi dymuniadau a theimladau plant, ond nid oedd y dadansoddiad a chynllun a luniwyd yn sgil hyn bob amser yn canolbwyntio digon ar y plant.
- Roedd angen i ymagwedd yr awdurdodau at asesu risg a rheoli risg gael ei rhannu'n fwy effeithiol a chael ei deall gan asiantaethau partner.

## 2. Esboniad o'r canfyddiadau

2.1 Canfu'r arolygwyr fod trafodaethau ynglŷn â strategaethau'n amserol ac wedi eu rheoli'n unol â'r canllawiau. Roedd ansawdd cofnodion trafodaethau strategol, fodd bynnag, yn amrywio gormod, ac yn aml nid oedd trefniadau cynllunio manwl ynglŷn â chyfrifoldebau ac amserlenni ar gyfer gweithredu.

2.2 Roedd yr arolygwyr yn pryderu bod y trefniadau yn y tîm dyletswydd ac asesu yn golygu nad oedd y rheolwr na'r gweithiwr cymdeithasol a oedd yn gyfrifol am wneud ymholiadau Adran 47 (pod dau) yn cyfrannu at y broses strategol gychwynnol, ac nid oedd ganddynt allu i ddylanwadu ar reoli'r achos. Nid oedd bob amser yn amlwg p'un a gynhelid trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth ganlyniadau, a gwnaeth y staff a'r partneriaid ddisgrifio'r arfer hwn fel un a oedd yn llai diogel. Gwnaeth hyn gyfrannu at honiadau gan bartneriaid nad oeddent yn cael digon o wybodaeth ynglŷn â chanlyniad atgyfeiriadau.

2.3 Roedd cyfarfodydd strategaeth wedi cael eu disodli, ar y cyfan, a chynhelid trafodaethau strategaeth rhwng gwasanaethau plant a'r heddlu yn lle hynny. Dywedwyd bod hyn yn rhannol oherwydd lleihad mewn argaeledd yr heddlu, a dywedwyd hefyd bod hyn wedi arwain at dwf mewn

yholiadau Adran 47 dan arweiniad un asiantaeth (gwasanaethau cymdeithasol), a llai o gyfleoedd ar gyfer yholiadau ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol/yr heddlu. Gwnaeth asiantaethau partner fynegi pryder ynglŷn â'r ffaith bod defnyddio trafodaethau strategaeth yn golygu nad oeddent yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y broses allweddol hon ar gyfer gwneud penderfyniadau, er bod ganddynt wybodaeth sylweddol am y teulu. Roedd yr awdurdod eisoes wedi penderfynu trafod y mater hwn â'r heddlu, ac i werthuso'r effaith yr oedd yn ei chael ar arferion.

2.4 Roedd ansawdd yr yholiadau Adran 47 a welwyd yn amrywio, ac roedd yr amser a gymerid i gwblhau yholiadau'n amrywio ar draws y timau ac o fewn y timau. Canfu'r arolygwyr fod diffyg cysondeb o ran y templedi a ddefnyddid i gofnodi yholiadau Adran 47, ac roedd hyn yn ei wneud yn anodd ar adegau i wneud gwaith dilynol ar y broses, yn enwedig o ran galluogi gweithiwr newydd i ddeall yr achos. Mewn rhai achosion, gwelodd yr arolygwyr yholiadau Adran 47 a gymerodd sawl mis i'w cwblhau, a chanlyniad hyn oedd bod angen gwneud rhagor o waith asesu.

2.5 Dangosodd y cyngor allu i wneud penderfyniadau clir wrth symud i archwiliadau amddiffyn plant, a chymerwyd camau brys cymesur i amddiffyn plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol. Fodd bynnag, unwaith iddynt fynd i'r broses asesu, gan gynnwys yholiadau Adran 47, roedd yn ymddangos bod y cyngor yn gyndyn o wneud penderfyniadau cynllunio nes iddynt roi cynnig ar bob dull asesu. Roedd hyn, ar adegau, yn effeithio ar amseroldeb y broses o drosglwyddo achosion i gynhadledd achos amddiffyn plant, ac yn achosi oedi o ran cynnig cymorth i'r plentyn a'r teulu. Dylai'r cyngor sicrhau nad yw asesiadau'n achosi oedi diangen, a'u bod yn cael eu cwblhau'n ddigon cyflym a chyda ffocws penodol.

2.6 Nododd yr arolygwyr y camau gweithredu a gymerwyd i gryfhau goruchwyliaeth y rheolwyr, a'r broses o lofnodi asesiadau cyn-geni, a bod y rhain bellach yn cael eu hadolygu'n systematig gan y rheolwr gwasanaeth gwaith maes yn dilyn adolygiad o'r broses hon ar ddechrau 2015.

2.7 Roedd yr awdurdod wedi defnyddio pwerau amddiffyn argyfwng chwe gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Samplwyd yr achosion hyn gan yr arolygwyr, a gwelsant enghreifftiau lle roedd camau gweithredu o'r fath yn briodol, ond hefyd gwelsant nifer bach lle gellid bod wedi gweithredu'n gynt. Byddai'r awdurdod yn elwa ar gael systemau ar waith i adolygu achosion o'r fath a dysgu ohonynt.

2.8 Roedd nifer yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn y cyfnod 2014/15 wedi lleihau o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Er bod canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd mewn saith diwrnod wedi gwella ac wedi cyrraedd 88%, roedd nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn gyffredinol wedi lleihau.

2.9 Roedd gan nifer o dimau achosion plant mewn angen, ac roedd pob un ohonynt wedi profi gwahanol bwysau a galwadau a oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, a chafodd hyn effaith ar faint o waith y gellid ei gyflawni a dwyster y gwaith hwnnw. Roedd gweithwyr yn bod yn arloesol o ran gwneud gwaith uniongyrchol, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei gofnodi'n effeithiol yng nghofnodion yr achosion. Roedd staff yn ystyried bod gwaith gyda phlant mewn angen yn cael ei "erydu'n barhaus" gan flaenoriaethau amddiffyn plant, ac roeddent o'r farn y byddai ganddynt ragor o gapasiti pe bai gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar waith. Cwestiynodd yr arolygwyr p'un a oedd defnyddio'r "plentyn enwol" ar y system wybodaeth hefyd yn golygu nad oedd y cyngor yn cydnabod y galw cyffredinol am waith plant mewn angen, a'r llwyth gwaith cysylltiedig.

2.10 Prin oedd yr enghreifftiau a welodd yr arolygwyr o asesiadau cychwynnol, oherwydd roedd y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd wedi symud ymlaen i'r cam trafodaeth strategaeth neu asesiad risg. Gwnaeth y staff nodi bod y ffaith nad oedd llawer o ddibyniaeth ar asesiadau cychwynnol o ansawdd da yn rhwystro teuluoedd rhag cael cymorth cynnar a allai eu helpu i osgoi cael ymyrraeth fwy dwys. Efallai bod cyfleoedd cynnar i ymyrryd yn cael eu colli, felly.

2.11 Roedd nifer yr asesiadau craidd a gwblhawyd yn 2014/15 wedi lleihau ychydig o'r flwyddyn flaenorol, ond roedd amseroldeb o ran eu cwblhau wedi aros yn gyson ar oddeutu 88%.

2.12 Roedd y cyngor wedi buddsoddi mewn model asesiad risg ar gyfer y gwasanaeth cyfan (Risg 2) i helpu gweithwyr cymdeithasol i nodi a dadansoddi risgiau posibl. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym fod y model wedi'i ymgorffori'n dda o fewn gwasanaethau plant, a'u bod naill ai wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol, neu fod ganddynt fynediad ato. Er eu bod yn gwerthfawrogi bod angen fframwaith risg, roedd rhai aelodau o'r staff yn teimlo nad oedd y ffordd o roi'r model ar waith yn ddigon hyblyg, ac nid oedd yn gweithio'n dda ar gyfer rhai plant a theuluoedd. Roedd yn destun pryder nad oedd rhai partneriaid yn ymwybodol o broses asesu risg y cyngor. Roedd hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â sut roedd yr asesiad yn llywio ac yn troi'n gynllun rheoli risg aml-asiantaeth a rennir.

2.13 Er mwyn osgoi dyblygu, roedd yr awdurdod wedi penderfynu y gellid defnyddio'r asesiad a wneid o ganlyniad i ymholiad Adran 47 a/neu asesiad Risg 2 yn ymgynwidiol fel asesiadau craidd. Canfu'r arolygwyr nad oedd y ffaith bod y cyngor yn gwneud defnydd hyblyg o fformatau asesu wedi cael ei danategu digon gan ddisgwyliadau clir ar gyfer gwasanaethau, er enghraifft amserlenni neu dargedau ar gyfer cwblhau. Roedd yr amser a gymerid i gwblhau'r asesiadau yn cael ei gyfrifo o'r dyddiad clustnodi yn hytrach na'r dyddiad atgyfeirio, neu'r dyddiad y penderfynwyd cynnal asesiad. Roedd yr arolygwyr yn pryderu ynglŷn â sut y byddai hyn yn effeithio ar brofiad y defnyddiwr gwasanaethau, ac ar ba mor dda y byddai'r cyngor yn deall ac yn gallu adrodd ar amseroldeb ei waith asesu.

2.14 Roedd rhai o'r asesiadau a welwyd o ansawdd da, ac yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i lywio'r dadansoddiad. Fodd bynnag, nododd yr arolygwyr fod yr arferion gwaith cymdeithasol da a adlewyrchwyd yng nghynnwys yr asesiadau'n cael eu tanseilio gan strwythur a dyluniad y system.

2.15 Canlyniad anfwriadol gwahanol fformatau asesu'r cyngor oedd bod asesiadau yn aml yn mynd yn dameidiog a/neu'n hirwyntog. Gwnaeth y methiant i sicrhau dadansoddiad holistaidd priodol o anghenion a risg o'r dechrau un effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau'n amserol. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau lle cafodd penderfyniadau eu gohirio er mwyn gwneud rhagor o waith asesu, yn hytrach na chael eu trosglwyddo i gynhadledd amddiffyn plant aml-asiantaeth neu broses gynllunio plentyn mewn angen. Hefyd, er bod sawl asesiad wedi'i gynnal, yn aml nid oedd barn gadarn am allu'r teuluoedd i rianta ac i ddiwallu anghenion y plentyn.

### Dyfyniad gan riant

*"Gwnaeth y gweithiwr cymdeithasol cyntaf weithio'n dda gyda ni fel teulu, ond yna roedd yn rhaid i mi gael gweithiwr cymdeithasol newydd, ac nid oeddwn i'n deall pam roedd yn rhaid i ni fynd i gynhadledd achos – roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy meirniadu pan nad oeddwn i wedi gwneud unrhywbeth o'i le."*

2.16 O ganlyniad i ddyblygu rhai prosesau asesu, collwyd symbyliad, a chafodd hyn ei waethygu gan y trefniadau trosglwyddo rhwng y podiau/timau sy'n ei wneud yn ofynnol i deuluoedd ymgysylltu eto â gweithiwr cymdeithasol newydd. Gwnaeth hyn hefyd effeithio ar brofiad y teulu a'u gallu/parodrwydd i ymgysylltu â phroses nad oeddent yn ei deall.

2.17 Gwnaeth tystiolaeth o'r ffeiliau achos, staff a'r teuluoedd dynnu sylw at y ffaith nad oedd y cyngor yn rhoi copi i bobl o'u hasesiad fel mater o drefn, nac i asiantaethau partner perthnasol. Eto, mae'n rhaid bod yr arfer hwn yn effeithio ar ddealltwriaeth plant a theuluoedd o ddiben y gweithgareddau asesu a'r cynllun sy'n deillio ohonynt, ac yn cyfyngu ar eu gallu i ddefnyddio'r cymorth maent yn ei dderbyn ac i ddylanwadu arno.

2.18 Roedd y lefel o gynnwys plant a phobl ifanc wrth lunio eu hasesiadau yn amrywio, ond nodwyd rhai arferion da. Mewn rhai achosion, roedd gweithwyr cymdeithasol yn gallu disgrifio'r ymdrechion parhaus a wnaethant i ddarganfod dymuniadau a theimladau'r plentyn, ac roedd yn siomedig gweld nad oedd hyn wedi'i adlewyrchu'n well yn y cofnodion achos. Mewn enghreifftiau eraill, fodd bynnag, nid oedd yn bosibl gweld o'r asesiad p'un a oedd plentyn wedi cael ei weld, neu wedi'i weld ar ei ben ei hun, a bydd angen rhoi rhagor o sylw i hyn.

2.19 Gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth yn y ffeiliau bod y rheolwyr yn llofnodi asesiadau ac yn gwneud sylwadau arnynt. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y rheolwyr yn gwirio p'un a oedd plentyn wedi cael ei weld fel rhan o'r broses hon, ond mae perfformiad y cyngor, er enghraifft mewn perthynas â'r canran o asesiadau cychwynnol lle roedd tystiolaeth bod plentyn wedi cael ei weld/ei weld ar ei ben ei hun, wedi aros yn ystyfnig o isel. Gwnaeth yr arolygwyr hefyd herio'r honiad a welwyd mewn nifer o achosion bod y plentyn yn rhy ifanc i fynegi barn. Byddai staff a rheolwyr yn elwa ar gael rhagor o arweiniad ynglŷn â disgwyliadau'r cyngor, yn enwedig o ran cynnwys plant iau mewn asesiadau.

2.20 Er bod y staff yn ei ystyried yn bwysig darganfod dymuniadau a theimladau'r plentyn, yn aml nid oedd y dadansoddiad asesu a'r cynllun a gynhyrchid o ganlyniad i hynny yn canolbwyntio digon ar hybu'r canlyniadau gorau i'r plentyn. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau'r rheolwr ynglŷn ag asesiadau yn ymwneud â chamau'r broses nesaf, yn hytrach nag yn adlewyrchiad o'r cynnwys, ansawdd y gwaith asesu, a'r cynllun a luniwyd o'r herwydd.

2.21 Roedd amseroldeb y broses lofnodi'n amrywio, ac yn aml roedd yn adlewyrchu argaeledd y rheolwr. Mewn rhai achosion, gwnaeth hyn achosi oedi yn y gwaith o gynllunio/trosglwyddo achosion ar ôl hynny.

2.22 Fel gyda'r trefniadau mynediad, mae angen cryfhau goruchwyliaeth y rheolwyr o ansawdd yr asesiadau. Rhoddwyd sicrwydd i'r arolygwyr bod y cyngor wedi cydnabod nad oedd y trefniadau asesu mor effeithiol ag y gallent fod, a gwnaeth y cyngor gomisiynu hwylusydd allanol i'w cynorthwyo i wneud adolygiad o'u cynnydd.

## Thema 3: Diogelu a Rheoli Gofal

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae plant a phobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth neu amddiffyniad arnynt, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, yn cael cymorth ac amddiffyniad aml-asiantaeth amserol ac effeithiol drwy gynllunio ar sail risg, arfer awdurdodol a gwaith adolygu, ac yn dwyn canlyniadau cadarnhaol.

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd gweithwyr cymdeithasol yn gallu mynegi anghenion plant a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'u gofal, yn ogystal â'r camau gweithredu a oedd yn angenrheidiol er mwyn lleihau risg a chyflawni canlyniadau dymunol.
- Mae angen i ymagwedd y cyngor at asesu risg a rheoli risg gael ei chyfathrebu'n fwy effeithiol i asiantaethau partner, ac mae angen iddynt ei deall yn well.
- Gwnaed yr holl waith amddiffyn plant gan staff cymwys.
- Unwaith i'r penderfyniad gael ei wneud i'w cynnal, roedd cynadleddau ac adolygiadau amddiffyn plant yn amserol, wedi eu rheoli'n dda, ac yn canolbwyntio ar blant.
- Roedd llawer o blant wedi gorfod newid gweithiwr cymdeithasol yn aml.
- Nid oedd grwpiau craidd a chynlluniau amddiffyn plant bob amser yn sicrhau bod dealltwriaeth a rennir o'r risgiau, y cynnydd oedd ei angen, na'r canlyniadau a gyflawnwyd.
- Roedd y cyngor wedi datblygu perthynas glir rhwng yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus ac amddiffyn plant.
- Roedd gan y cyngor amrywiaeth dda o wasanaethau ategol i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd a oedd angen ymyrraeth statudol arnynt, ond yn gynyddol roedd yn rhaid mynd ar restr aros i gael mynediad at y gwasanaethau hyn.
- Cafodd achosion o blant sy'n derbyn gofal eu clustnodi, ond nid oedd yr holl blant sy'n derbyn gofal wedi cael eu clustnodi i weithiwr cymdeithasol cymwysedig.
- Nid oedd ansawdd cynlluniau gofal yn gyson, ac nid oeddent yn edrych at y dyfodol digon, nac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Roedd yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a welsom wedi cael eu rheoli'n dda, ac roedd gan y swyddogion adolygu annibynnol y sgiliau a'r profiad i gyflawni'r gwaith yr oedd y gwasanaeth yn disgwyl iddynt ei wneud.

## 3. Esboniad o'r canfyddiadau

3.1 Roedd yr holl waith amddiffyn plant yn cael ei wneud gan weithiwr cymwysedig, ac roedd cymysgedd da o brofiad o fewn y timau. Roedd yr holl blant yr oedd eu henwau wedi eu cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cael eu clustnodi i weithiwr cymwysedig. Crybwyllwyd diffyg cyson o ran capasiti ymhlith y rheolwyr fel mater a oedd yn effeithio'n gynyddol ar argaeledd y rheolwyr a'u goruchwyliaeth o achosion.

3.2 Pan wnaed penderfyniad bod angen cynhadledd amddiffyn plant, cynhaliwyd cynadleddau o fewn amserlenni priodol. Roedd y cyngor wedi gweld lleihad sylweddol yn nifer y plant yr oedd eu henwau wedi eu cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant, o 133 yn 2013/14 i 75 yn niwedd 2014/15. Roedd y rheolwyr diogelu plant yn craffu ar y ffigurau hyn yn rheolaidd, ac yn darparu gwybodaeth



ac adroddiadau i'r uwch dîm rheoli ac i'r pwyllgor craffu perthnasol. Roedd y tîm yn bwriadu datblygu cysylltiadau cliriach â'r gwasanaeth dyletswydd er mwyn deall yn well yr amrywiadau yn nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn plant newydd ac i olrhain ymholiadau amddiffyn plant yn fwy effeithiol.

3.3 Canfuwyd bod adroddiadau'r gynhadledd gwaith cymdeithasol amddiffyn plant a welwyd gan yr arolygwyr yn amrywio o safon ddigonol i safon dda, ac yn rhoi digon o wybodaeth i aelodau o'r gynhadledd wneud penderfyniadau priodol. Mae rheolwyr diogelu o'r farn bod ansawdd yr adroddiadau gwaith cymdeithasol yn gwella, a bod yr asesiad Risg 2 wedi darparu fframwaith defnyddiol.

3.4 Roedd trefniadau trosglwyddo'r cyngor yn golygu bod yr adroddiadau gwaith cymdeithasol ar gyfer cynhadledd, er eu bod yn amserol, wedi cael eu paratoi gan weithiwr cymdeithasol gan ddefnyddio gwybodaeth o'r adroddiad Adran 47 a ysgrifennwyd gan y gweithiwr blaenorol. O ystyried bod yn rhaid i'r achos gael ei drosglwyddo a'i baratoi ar gyfer cynhadledd mewn 15 diwrnod, canlyniad y cyfyngiadau amser oedd nad oedd llawer o amser i ymgysylltu â'r teulu. Dywedwyd wrth yr arolygwyr nad oedd y trefniadau hyn yn gweithio'n dda i blant a theuluoedd, a'i fod yn anodd i weithwyr proffesiynol sicrhau bod barn y plant yn cael ei chynrychioli yn y gynhadledd gychwynnol pan nad oeddent bob amser yn adnabod y plentyn yn dda. Roedd yr holl weithwyr cymdeithasol a rheolwyr a gafodd gyfweiliad gennym wedi ymrwmo i wella canlyniadau ar gyfer y plant a'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio â nhw. Fodd bynnag, cafodd y newidiadau aml i'r gweithiwr cymdeithasol effaith negyddol ar ansawdd y gwaith achos, ac yn fwy sylweddol, y berthynas rhwng teuluoedd plant a'r staff ar ôl i achosion cofrestru amddiffyn plant gael eu trosglwyddo i'r tîm ymyriad teuluol, a dim ond yn ystod y cam hwn yr oedd y cyflymder o ran y newidiadau yn y gwaith cymdeithasol yn arafu.

3.5 Roedd y cynadleddau achos amddiffyn plant a welwyd gan yr arolygwyr wedi cael eu cadeirio'n dda, ac roeddent yn canolbwyntio ar blant. Mae'r cyngor wedi cynyddu capasiti ei reolwyr diogelu mewn ymateb i dwf yn y galw ac i sicrhau gwell ddilyniant i deuluoedd. Caiff presenoldeb asiantaethau partner mewn cynadleddau achos ei fonitro, a dywedwyd ei fod yn dda, a bod unrhyw fethiant i fod yn bresennol ymhlith y gweithwyr proffesiynol yn cael ei herio. Nid yw'r heddlu bob amser yn mynychu cynadleddau achosion adolygu, ond maent yn cyflwyno adroddiadau pan fo hynny'n berthnasol.

Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol a chadeiryddion yn rhoi cefnogaeth dda i deuluoedd a oedd yn mynychu'r cynadleddau, gan ddangos eu bod yn ymwybodol y gallai'r mater fod yn sensitif. Roedd yr awdurdod hefyd wedi ceisio hybu llais plant a'u dealltwriaeth o'r broses drwy ddatblygu system gyfeillio arloesol.

### Arsylwi – cynhadledd achos

Roedd y cadeirydd yn glir, a chadarnhaodd fod adroddiadau wedi cael eu darllen, gan sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gallu cyfrannu. Gwnaeth y ddau riant fynychu, ac er bod natur rhai o'r materion yn anghyfforddus, ni wnaeth pobl osgoi trafod yr effaith ar y plant. Roedd cyfaill cynhadledd a oedd wedi cwblhau darn o waith cyfrannu gyda'r plentyn hynaf – cafodd hyn ei esbonio i'r gynhadledd. Roedd y drafodaeth yn heriol ar adegau, ond fe'i cynhaliwyd mewn ffordd sensitif.

3.6 Gwnaeth cadeiryddion y gynhadledd sicrhau bod cytundeb ynglŷn ag aelodaeth o'r grŵp craidd ac amlinelliad o'r cynllun amddiffyn plant erbyn diwedd y gynhadledd gyntaf. Roedd y trefniadau ar gyfer y grŵp craidd a'r adolygiad amddiffyn plant yn amserol, ac yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r teulu. Fodd bynnag, roedd y berchenogaeth a'r her a roddwyd

gan y grŵp craidd yn anghyson. Mewn un enghraifft, ni chwblhawyd asesiad rhianta cytunedig, ni chafodd ei herio, ac roedd oedi cyn dadgofrestru. Nid oedd digon o dystiolaeth o sut gwnaeth rhieni, gofawyr a phobl ifanc ymgysylltu â grwpiau craidd, na thystiolaeth eu bod wedi cael cymorth i ddeall y broses, oherwydd nid oedd eu safbwyntiau'n cael eu cofnodi'n rheolaidd yn y cofnod.

3.7 Roedd ansawdd y cynlluniau amddiffyn plant yn amrywio, ond yn bennaf roeddent yn foddhaol, ac roedd rhai yn dda. Roedd plant a oedd yn destun cynlluniau amddiffyn plant yn cael ymweliad o fewn amserlenni cytunedig yn bennaf. Gwelodd yr arolygwyr waith adeiladol gydag asiantaethau partner i wneud cynnydd ar gynlluniau diogelu plant a chynlluniau plant mewn angen. Yn yr un modd, gwnaeth yr asiantaethau partner adrodd bod ganddynt berthynas weithio effeithiol gyda'r gweithwyr cymdeithasol, ond eto, tynnwyd sylw at y newidiadau o ran gweithiwr cymdeithasol fel rhywbeth a oedd yn llesteirio cyfathrebu da ac "nad oedd yn gwneud unrhyw synnwyr i deuluoedd".

### Enghraifft achos o'r ffeil

Goresgynnwyd gwrthwynebiad cychwynnol y fam at ymyrraeth drwy waith y gweithiwr cymdeithasol, a thrwy gynnwys y rhaglen ryddid. Gwnaeth yr ysgol gydweithio'n dda â'r gweithiwr cymdeithasol i roi cefnogaeth les ychwanegol, a gwnaeth y gwaith uniongyrchol a wnaed â'r plant eu helpu i deimlo'n ddiogel. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'u teulu o ganlyniad i hyn.

3.8 Ni chafodd y templed amddiffyn plant ei ystyried gan yr arolygwyr na'r staff fel modd effeithiol o hybu gwaith cynllunio plentyn mewn angen neu waith cynllunio amddiffyn plant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac erys hwn yn faes i'w ddatblygu. Roedd fformat y cynllun yn canolbwyntio gormod ar y gweithiwr cymdeithasol fel cydlynedd tasgau a gweithgareddau, ac yn aml nid oedd y cynlluniau'n nodi'r ansawdd na manylion y gwaith a wnaed gyda'r teulu, neu'r canlyniadau yr oedd angen iddynt eu cyflawni.

3.9 Yn rhai o'r cynlluniau a welwyd, roedd diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn yr oedd angen ei newid a sut y byddai cynnydd yn cael ei fesur. Mewn rhai achosion, roedd y ffocws ar un agwedd ar risg yn dylanwadu'n ormodol ar y cynllun, ac roedd materion eraill a "gollwyd dros dro", gan adael y plentyn yn agored i niwed, o bosibl. Yn aml, canolbwyntiwyd ar gydymffurfiaeth un rhiant yn hytrach nag ar y gwahaniaeth yr oedd y cynllun yn ei wneud i'r plentyn. Nid oedd yr arolygwyr yn hyderus bod rhieni/pobl ifanc yn cael copi o'r cynllun a gynhyrchid o ganlyniad fel mater o drefn, ac roedd hyn yn cyfyngu ar alluogi'r teuluoedd i gael perchnogaeth a rennir o'r materion.

3.10 Ystyriwyd cynnydd cyffredinol y cynlluniau mewn cynadleddau adolygu amddiffyn plant, ac roedd hon yn lefel hanfodol o sicrwydd ansawdd. Cynhyrchwyd cofnodion o safon foddhaol yn y cyfarfodydd. Fodd bynnag, roedd yr arolygwyr yn pryderu bod arfer y cyngor o beidio â dangos cofnodion y gynhadledd yn ystod y cam dadgofrestru yn llesteirio gwaith craffu, ac yn ei wneud yn anodd deall y sail resymegol am ddadgofrestru.

3.11 Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc a oedd angen amddiffyniad yn destun cynhadledd achos a chynlluniau amddiffyn plant. Fodd bynnag, roedd rhai achosion a oedd bron â bod yn achosion amddiffyn plant, neu achosion a oedd newydd gael eu dadgofrestru, yn cael eu rheoli drwy drefniadau plentyn mewn angen y cyngor. Roedd amseroldeb ac ansawdd y cynlluniau/adolygiadau plentyn mewn angen yn amrywio, ond roedd yn cynnwys darpariaeth dda a strwythuredig o waith a gwasanaethau. Roedd achosion plentyn mewn angen eraill, fodd bynnag, yn dangos gormod o optimistiaeth ynglŷn â dealltwriaeth y teulu o'r problemau. Mewn rhai achosion, cafodd y

penderfyniad i beidio â chofrestru'r plentyn, neu i ddadgofrestru'r plentyn, ei ddylanwadau gan y lefel o gydweithrediad a ddangoswyd gan y teulu yn ystod prosesau asesu hir, ac er bod y teulu wedi tynnu yn ôl o wasanaethau plentyn mewn angen ar ôl hynny, nid oedd gwerthusiad nac adolygiad o oblygiadau hynny o ran diogelwch y plentyn. Mewn achosion eraill, cafodd achosion eu cau cyn bod canlyniad neu effaith yr atgyfeiriadau i wasanaethau eraill yn hysbys.

3.12 Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu ychydig o 219 yn 2013/14 i 224 yn 2014/15. Roedd yr achosion hyn wedi eu rheoli ar draws nifer o dimau, a oedd yn trosglwyddo i dîm cymorth plant ac oedolion ifanc neilltuedig unwaith i'r cynllun dyfodol parhaol gael ei bennu. Mae'r tîm anabledd integredig plant a'r timau trawsnewid hefyd yn rheoli achosion plant sy'n derbyn gofal.

3.13 Roedd y cyngor wedi datblygu prosiect cynnil a oedd wedi datblygu perthynas glir rhwng yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus, amddiffyn plant, a chymwysiadau Adran 20. Roedd achosion bellach yn cael eu hatgyfeirio i broses sgrinio amlinelliad cyfraith gyhoeddus ar ôl yr ail neu'r drydedd gynhadledd achos. Roedd y system hon yn cynnwys mynediad prydlon at gymorth cyfreithiol a goruchwyliaeth gan uwch-reolwyr o'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys adolygu amserlenni yn ymwneud â pha mor hir y dylai achos aros yn y cam cyn gweithrediadau. Roedd y staff o'r farn bod y datblygiad hwn yn gadarnhaol, a'i fod yn helpu teuluoedd am ei fod yn ei wneud yn haws nodi achosion lle nad oedd teuluoedd wedi llwyddo gwneud digon o gynnydd i ddiwallu anghenion y plentyn, ac i weithredu arnynt. Roedd y prosiect hwn bellach wedi'i ymgorffori o fewn y tîm myriad teuluol.

3.14 Cafwyd adroddiadau o berfformiad da mewn perthynas ag amseroldeb lleoliadau cyntaf a oedd yn dechrau gyda chynllun gofal, yn ogystal ag amseroldeb adolygiadau ac ymweliadau statudol. Roedd systemau'r cyngor yn cefnogi nodi unrhyw ddiffygion o ran perfformiad ar draws y timau. Nid oedd y cyngor wedi esbonio beth oedd y perfformiad hwn yn ei olygu mewn perthynas â'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer pobl ifanc. Nodwyd bod yna wedi bod ffocws corfforaethol diweddar ar amseroldeb asesiadau iechyd a chynlluniau addysg personol, a chanlyniad hyn yw bod rhywfaint o welliant o ran cydymffurfiaeth, ond mae angen gwella mwy.

3.15 Ar y cyfan, gwirededwyd uchelgais y cyngor y dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal gael gweithiwr cymwys wedi'i glustnodi ar ei gyfer, ond roedd rhai plant sy'n derbyn gofal wedi cael eu clustnodi i staff a oedd yn brofiadol ond heb gymwysterau. Roedd gan y cyngor systemau ar waith i gefnogi goruchwyliaeth y trefniadau hyn. Unwaith i'r achosion gael eu trosglwyddo i'r dîm cymorth plant ac oedolion ifanc, roedd gan blant a phobl ifanc fwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasau mwy cyson â'u gweithiwr cymdeithasol.

### Dyfyniad gan weithwyr cymdeithasol

*"Mae gweithwyr cymdeithasol teuluoedd yn cael eu newid yn rhy aml, ac yn aml mae hyn ar adegau allweddol. Pan maent yn cael eu clustnodi i'r tîm tymor hir, yna dylent aros gyda'r gweithiwr cymdeithasol a glustnodwyd yn hytrach na chael eu pasio ymlaen, oherwydd mae hyn yn aflonyddgar iawn i'r teulu a'r timau sy'n gweithio â nhw."*

3.16 Dangosodd tystiolaeth o'r cyfweiliadau a'r ffeiliau a adolygwyd nad oedd y plant yn derbyn gofal oni bai bod angen, ond mewn rhai achosion gallai ymyrraeth gynnwys fod wedi:

- atal problemau a oedd yn arwain at angen gofal rhag cynyddu
- galluogi penderfyniadau mwy amserol ynglŷn ag ymyrryd

3.17 Gwnaeth y cyngor weithio'n galed i geisio sicrhau, lle'r oedd modd, bod plant yn derbyn gofal o fewn eu teulu estynedig, neu eu bod yn cael cymorth i gynnal perthnasau mwy ystyrlon. Roedd yr awdurdod wedi datblygu gwasanaeth cynadledda grŵp i deuluoedd a oedd yn gadarnhaol, ac roedd hwn yn cael ei ddefnyddio i hybu'r nod hwn. Roedd y cyngor hefyd wedi llwyddo i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau ac i recriwtio mwy ohonynt. Wrth gydnabod a chefnogi ffocws y cyngor ar gadw plant o fewn eu teulu pan fo hynny'n ddiogel, roedd staff yn codi pryderon bod trefniadau panel lleoli'r cyngor yn aml "yn arafu'r penderfyniad i dderbyn plentyn i gael gofal", er nad oedd gwasanaethau cymunedol ar gael nac yn ddigon hyblyg i allu diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plentyn.

3.18 Roedd gan y cyngor amrywiaeth dda o wasanaethau cymorth i ddiwallu anghenion y plant a'r teuluoedd sydd angen ymyrraeth statudol. Roedd tystiolaeth bod plant a theuluoedd yn elwa ar y gwasanaethau hyn, ond roedd pwysau gwasanaeth a llai o gapasiti o fewn y tîm gwasanaeth cymorth teuluoedd a'r glasoed yn effeithio mwy a mwy ar argaeledd ac amseroldeb y ddarpariaeth. Roedd y gweithwyr cymdeithasol a'r partneriaid yn ystyried bod y lleihad yn y gwasanaeth yn cael effaith uniongyrchol ar y canlyniadau a gyflawnwyd ar ran plant, ac roeddent yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn ag i ba raddau yr oeddent yn gweld gwasanaethau da'n cael eu "herydu", ac roeddent o'r farn bod hyn oherwydd bod angen arbedion effeithlonrwydd.

3.19 Roedd y dystiolaeth o'r achosion a adolygwyd yn dangos bod cynlluniau gofal yn foddhaol ar y cyfan, ond yn anghyson. Roedd gan blant gynllun gofal, ond yn aml nid oedd fformat presennol y cynllun yn edrych at y dyfodol nac yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau. Roedd hefyd angen i gynlluniau iechyd ac addysg gael eu hintegreiddio'n well i'r cynllun cyffredinol. Gwerthfawrogid y gwasanaeth addysg i blant sy'n derbyn gofal, a disgrifiwyd y cyfathrebu rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol fel rhywbeth a oedd yn cefnogi'r ffocws ar gyrhaeddiad a sefydlogrwydd yn yr ysgol.

3.20 Yn aml, y bwlch y tynnwyd sylw ato fwyaf yn y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal oedd y cyfyngiad ar argaeledd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, er bod y staff yn gwerthfawrogi gwaith y gweithiwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

3.21 Roedd gan y gweithwyr cymdeithasol ddealltwriaeth dda o'u hachosion, gan gynnwys y risg posibl i'r plentyn, ond nid oedd hyn bob amser wedi'i adlewyrchu'n dda yn y cynllun, ac mewn rhai achosion, roedd diffyg gwaith cynllunio wrth gefn amserol mewn perthynas ag anghenion y plentyn ar gyfer ei leoliad.

3.22 Roedd y staff yn cydnabod pa mor agored i niwed yw plant sy'n mynd ar goll wrth dderbyn gofal, ond nid oedd dealltwriaeth ddigon clir o'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer rheoli'r mater hwn. Yn hytrach, roedd gorddibyniaeth ar "reolwr yn dweud wrthynt beth i'w wneud". Roedd angen i'r trefniadau diogelu ar gyfer rheoli'r ymddygiad peryglus hwn ac ymddygiadau peryglus eraill fod yn fwy sefydledig ar draws y gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y staff yn ddigon hyderus i gymryd camau amserol i amddiffyn y plentyn.

3.23 Roedd y staff yn ystyried eu hunain yn eiriolwyr cryf dros y plant, ac yn ceisio bod yn greadigol yn eu gwaith, er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith cynllunio. Comisiynid eiriolaeth ffurfiol ar lefel ranbarthol, ond yn sgil ail-gomisiynu'r gwasanaeth yn ddiweddar cafwyd rhywfaint o ddiffyg dros dro yn y ddarpariaeth. Tynnodd y staff sylw at broblemau cyfathrebu gwael ynghylch y broses ail-gomisiynu, a dywedwyd nad oedd y gwasanaeth presennol wedi'i sefydlu ar hyn o bryd, er enghraifft mewn perthynas â'i wasanaeth ymweld annibynnol. Roedd yr uwch-reolwyr yn ceisio rheoli'r materion hyn er mwyn lleihau'r effaith ar blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint.

3.24 Roedd adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn cydymffurfio, ac roedd swyddogion adolygu annibynnol yn cwrdd â phlant a phobl ifanc yn rheolaidd cyn yr adolygiadau i'w hannog i gyfrannu. Roedd y gwasanaeth swyddogion adolygu annibynnol wedi'i gynrychioli ar y fforwm plant, ac roedd hefyd yn cyfrannu at baneli lleoliadau'r cyngor; roedd hyn yn rhoi cyfle da iddynt sicrhau pwyslais cryf ar ddilyniant gwaith cynllunio, ac ar gyflawni'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc. Mae cyfrifoldebau sicrhau ansawdd y gwasanaeth swyddogion adolygu annibynnol yn cynnwys llunio adroddiadau ar, er enghraifft, amseroldeb ac ansawdd ymweliadau statudol.

3.25 Roedd yn glir bod y staff, y rheolwyr a'r partneriaid ar draws y timau'n teimlo'n hyderus o ran eu swyddi, eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiad i blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, roedd y staff yn pryderu bod pwysau cyllidebol yn effeithio mwy a mwy ar ba mor uchelgeisiol oedd y cyngor o ran plant sy'n derbyn gofal, ac roedd canfyddiad bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar "fodloni gofynion" a "bod yn ddigon da". Bydd yn bwysig i'r cyngor fynd i'r afael â'r canfyddiad hwn, ac i ddangos ei ymrwymiad clir i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc.

### Dyfyniadau gan staff

*"Plant sy'n derbyn gofal yw'r flaenoriaeth, ac mae staff bob amser yn ceisio sicrhau bod ganddynt lais, ac maent yn herio'r cyngor ar ran y plentyn os oes angen. Mae newidiadau yn y gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym myd addysg yn golygu nad oes ganddynt fynediad at gymorth uniongyrchol gan diwtoriaid bellach – mae hwn yn gam yn ôl."*

3.26 Mae'r cyngor wedi datblygu un uned ddiogelu yn ddiweddar, ac wedi rhoi'r timau diogelu oedolion a'r timau diogelu plant gyda'i gilydd, er mwyn iddynt adrodd i'r pennaeth diogelu. Cafodd y rheolwyr a'r staff eu symbylu gan y ffaith bod y newid hwn wedi digwydd o ganlyniad i frwdfrydedd y rheolwyr, ac roeddent yn optimistaidd y byddai'r uned newydd yn eu galluogi i rannu gwybodaeth yn well, i oruchwyllo ansawdd ac ymateboldeb yr arferion gweithredol, ac i ganolbwyntio mwy ar y plentyn. Mae'r uned hon newydd gael ei lleoli gyda'i gilydd, ac felly roedd yn rhy gynnar i weld pa effaith y byddai'n ei chael.

## Thema 4: Arweinyddiaeth a Llywodraethu

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol, a gyda'i gilydd maent yn amlinellu strategaeth effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r awdurdod yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu cymorth, gofal ac amddiffyniad i blant a phobl ifanc, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau rhianta corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Darperir gwasanaethau gan weithlu profiadol a medrus â chymwysterau addas sy'n gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc lleol a'u teuluoedd.

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol.
- Roedd uwch-arweinwyr a swyddogion yn ystyried diogelu yn flaenoriaeth, ac roeddent wedi ymrwymo i wella mecanweithiau diogelu.
- Mae angen newid cyfeiriad strategol y cyngor i fod yn strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau plant sy'n cael ei chyfathrebu'n effeithiol i staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau.
- Mae angen i'r cyngor sicrhau bod dadansoddiad parhaus o'r cymhlethdodau sylfaenol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant.
- Mae angen cryfhau gallu'r aelodau etholedig i herio perfformiad drwy gael gwybodaeth sicrwydd ansawdd well.
- Mae'r cyngor yn ceisio gwella sut mae barn plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar ddatblygiad y gwasanaeth.
- Nid oedd staff a phartneriaid wedi deall cyfrifoldebau trawsbynciol uwch dîm rheoli gwasanaethau cymdeithasol yn dda iawn.
- Dylai'r cyngor sicrhau bod arweinyddiaeth y rheolwyr wedi'i halinio digon â'r profiad proffesiynol sydd ei angen i reoli cymhlethdodau gwahanol feysydd y ddarpariaeth weithredol.
- Mae angen i wybodaeth ynglŷn â pherfformiad a sicrwydd ansawdd gael ei chasglu mewn ffordd fwy effeithiol, a'i defnyddio i ysgogi gwelliant yn y perfformiad gweithredol yn systematig.
- Roedd gweithlu â chymwysterau addas a chyd digon o brofiad ar waith, ac roeddent yn ddigon ymrwymedig.
- Mae gan y cyngor ymrwymiad cadarn at ddysgu a datblygiad.
- Mae angen i'r cyngor sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant cynefino a hyfforddiant craidd ar gael i'r holl staff, gan gynnwys rheolwyr a staff asiantaeth.
- Roedd y staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac yn ei gwerthfawrogi, ond nid oedd yr ansawdd yn gyson, ac roedd yn amrywio yn ôl pwysau gwaith.
- Roedd morâl rhai staff yn cael ei effeithio gan newidiadau mewn capasiti'r gwasanaeth a'r rheolwyr.

## 4. Esboniad o'r canfyddiadau

### Cyfeiriad strategol

4.1 Ar y lefel fwyaf strategol, mae'r cyngor wedi pennu'r egwyddor bwysig y dylai teuluoedd gael eu cefnogi, ac mae eu dull teuluoedd cyfan wedi'i sefydlu'n glir iawn o fewn Cynllun Integredig Sengl 2013–2017 y cyngor. Fodd bynnag, nid oedd yn glir i ba raddau roedd ei gyfeiriad strategol wedi cael ei lywio gan ddadansoddiad o naill ai anghenion strategol ar y cyd neu anghenion lleol a rennir.

4.2 Mae'r trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol, ac roedd trefniadau ar waith ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid strategol. Gwnaethom nodi rôl arweinyddiaeth y prif weithredwr ar y bwrdd gwasanaeth lleol a rôl gwasanaethau cymdeithasol (cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol) y prif swyddog ar y bwrdd diogelu plant rhanbarthol. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan bartneriaid yn awgrymu bod cyfraniad y prif swyddog i'r bwrdd diogelu rhanbarthol, er iddo fod yn ddylanwadol, wedi cael ei lesteirio gan broblemau capasiti yn nhîm yr uwch-reolwyr. Mae cynrychiolaeth Sir y Fflint ar y bwrdd, ac ar yr is-grwpiau perthnasol, wedi cael ei chryfhau gan fod uwch-swyddog diogelu/arweinydd plant wedi cael ei benodi'n ddiweddar.

4.3 Roedd y cyngor yn ymwybodol o'i gryfderau a'r meysydd i'w datblygu, ac roedd wedi cael cyfnod o ad-drefnu sylweddol er mwyn alinio ei drefniadau uwch-reoli â'i model ar gyfer darparu gwasanaethau cynaliadwy. Gwnaeth hyn roi ffocws ar ddull mwy darbodus wedi'i danategu gan waith gwell ar draws y gyfarwyddiaeth. Disgrifiwyd y newidiadau i'r tîm o uwch-swyddogion gan y swyddogion a'r aelodau fel rhywbeth a fyddai'n galluogi'r cyngor i wneud arbedion effeithlonrwydd, ond fel rhywbeth hefyd a oedd yn cefnogi model darparu wedi'i newid a fyddai'n gwneud i weithwyr rannu mwy o wybodaeth.

4.4 Roedd aelodau etholedig a swyddogion yn deall yn glir bod diogelu yn flaenoriaeth gorfforaethol hirsefydlog, ond roeddent o'r farn bod hyn wedi'i gryfhau'n ddiweddar gan benderfyniad y cyngor, mewn ymateb i faterion sy'n ymddangos ledled y DU megis camfanteisio'n rhywiol ar blant a diogelu oedolion, i ddynodi diogelu'n flaenoriaeth strategol yng Nghynllun Gwella'r cyngor ar gyfer 2015/16.

4.5 Roedd y cyngor yn hyderus bod canolbwyntio ar deuluoedd yn hybu gallu'r cyfarwyddwr statudol i lywio'r agenda gorfforaethol. Er y byddai gwasanaethau plant yn cyfrannu at arbedion yn y dyfodol, roedd sicrwydd corfforaethol y byddent yn parhau i fod yn gymharol warchoddedig. Ar adeg yr arolygiad, roedd y cyngor wedi pennu agenda newid sylweddol ar gyfer gwasanaethau plant, i'w goruchwyllo gan fwrdd moderneiddio wedi'i gadeirio gan y prif weithredwr. Er bod mwy o ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau plant, mae angen dadansoddiad parhaus o'r cymhlethdodau gwaelodol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

4.6. Canfu'r arolygwyr lefel dda o gefnogaeth wleidyddol am gyfeiriad strategol y cyngor a gwasanaethau plant. Roedd yr aelod o'r cabinet ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cwrdd yn rheolaidd â'r prif swyddog ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a'i dîm rheoli. Gwnaeth yr aelod o'r cabinet fynegi hyder wrth ymgymryd â chyfrifoldebau'r rôl. Fodd bynnag, roedd y trefniadau briffio a ddisgrifiwyd yn anffurfiol yn bennaf, a byddent yn elwa ar fod yn fwy strwythuredig er mwyn sicrhau bod y swyddogion yn atebol.

4.7 Roedd y trefniadau craffu a oedd yn rhan o'r pwyllgor trosolwg a chraffu ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd yn hirsefydlog. Roedd aelodau o'r pwyllgor yn deall eu swyddogaeth herio, ac roeddent yn gallu rhoi enghreifftiau cadarnhaol o sut roeddent wedi cyflawni eu dyletswyddau o ran monitro perfformiad y cyngor. Roedd yr arolygwyr yn betrus ynghylch y ffaith nad oedd yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r tîm craffu bob amser yn cynnwys dadansoddiad a oedd yn ddigon

cadarn, ac roeddent o'r farn y byddai gallu'r aelodau etholedig i herio perfformiad yn cael ei gryfhau gan wybodaeth well ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a phrofiad y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

4.8 Roedd aelodau etholedig ac uwch-swyddogion yn ymweld yn rheolaidd â staff rheng flaen er mwyn gwrandao yn uniongyrchol ar eu barn, fel yr argymhellwyd gan yr Arglwydd Lamming (yn dilyn marwolaeth Victoria Climbié). Roedd y staff yn croesawu'r ymweliadau hyn, ond roeddent o'r farn y gallai'r trefniadau fod yn fwy pwrpasol, ac y gallent greu mwy o gyfleoedd i weithwyr rheng flaen i drafod pwysau ar y gwasanaeth.

4.9 Mae'r fforwm plant (bwrdd rhianta corfforaethol) wedi'i sefydlu, ac mae cynrychiolaeth dda gan aelodau etholedig. Mae aelodau o'r fforwm yn cynnwys pedwar person ifanc, ac mae eu cyfraniad uniongyrchol yn helpu i lywio'r broses o wella'r gwasanaeth. Caiff materion a grybwyllir yn y fforwm hwn eu hadlewyrchu a'u holrhain drwy waith craffu. Roedd aelodau o'r bwrdd yn gallu rhoi enghreifftiau cadarnhaol o'r gwahaniaeth yr oedd rhianta corfforaethol wedi ei gael ar blant sy'n derbyn gwasanaethau, ac roeddent o'r farn y bydd penodiad diweddar swyddog cyfranogi yn helpu i gael plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n well â'r gwaith o ddylunio gwasanaethau ac ystyriaethau strategol.

## Arweinyddiaeth

4.10 Roedd gwasanaethau cymdeithasol plant wedi profi cyfnod o newid. O ganlyniad i'r ffaith bod pennaeth gwasanaeth wedi gadael a oedd wedi bod yn ei swydd ers peth amser, collwyd arbenigedd yng ngwasanaethau plant, a disgrifiwyd hyn gan staff a phartneriaid yn gyfnod o "lesgedd arweinyddiaeth". Roedd tîm rheoli prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol wedi'i gyflunio i adlewyrchu'r ffocws strategol ar deuluoedd, ac roedd gan yr holl reolwyr rôl mewn gwasanaethau plant ac oedolion. Er bod y tîm hwn yn hyderus ynglŷn â'i uchelgais, dim ond yn ddiweddar y cafodd ei sefydlu, ac roedd yn dal i ddatblygu ei berthnasau a'i gyfrifoldebau.

4.11 Canfu'r arolygwyr nad oedd cyfeiriad strategol gwasanaethau plant wedi cael ei drosi'n effeithiol i fod yn strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau plant a oedd wedi'i dosbarthu drwy gydol y gweithlu. Nid oedd dealltwriaeth dda o gydgyfrifoldebau'r uwch-reolwyr am y gwasanaeth, felly, a dywedodd rhai staff a phartneriaid nad oeddent yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn rhai gwasanaethau. Er eu bod yn deall y bwriad y tu ôl i'r trefniadau rheoli diwygiedig, roedd yr arolygwyr o'r farn nad oedd y manteision honedig wedi cael eu profi eto, ac mae uchelgeisiau oeddent yn bennaf. Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod arweinyddiaeth y rheolwyr wedi'i halinio digon i'r profiad proffesiynol sydd ei angen i reoli cymhlethdod gwahanol feysydd y ddarpariaeth weithredol.

4.12 Dywedodd y staff dro ar ôl tro fod yna wedi bod newid o ran diwylliant yn ddiweddar ar ôl penodi uwch-reolwr diogelu/arweinydd ar gyfer plant ym mis Chwefror 2015. Mynegodd y staff a'r partneriaid hyder mewn deiliad y swydd, a hefyd y ffaith bod uwch-arweinydd penodedig ar gyfer gwasanaethau plant.

4.13 Ar adeg yr arolygiad, roedd gwasanaethau plant ar fin dechrau rhaglen sylweddol o newidiadau. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys:

- adolygu gwasanaethau plant i lywio'r gwaith o ad-drefnu gwasanaethau
- ad-drefnu gwasanaethau cymorth busnes
- datblygu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal



- gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd
- adolygu prosesau asesu

4.14 Er bod cwmpas cynlluniau'r cyngor yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd gan y rheolwyr ffocws cyson yn y gorffennol, ynghyd â'r angen presennol i reoli'r galw cynyddol ac arbedion effeithlonrwydd, cydnabu'r arolygwyr fod y cynlluniau hyn yn dangos bod y cyngor wedi ei ymrwymo unwaith eto i wella cymorth cynnar a gwasanaethau statudol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gwnaeth y cyngor gydnabod yn llawn bod ganddo "lawer i'w wneud i drosi'r dyheadau hyn yn fframwaith â ffocws ar ddarparu gwasanaethau plant".

4.15 Croesawodd y rhan fwyaf o'r staff a'r partneriaid y cynlluniau a gyhoeddwyd i adolygu'r gwasanaethau, ond roedd rhai'n teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r ffaith bod nifer o swyddi allweddol wedi aros yn wag tra bod ad-drefniad o'r gwasanaeth yn cael ei ystyried. Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod y cyflymder newid yn addas, a'i fod yn digwydd mewn ffordd sy'n cynnwys staff ac yn galluogi partneriaid a defnyddwyr y gwasanaeth i ymgysylltu ag ef mewn ffordd ystyrlon.

## Gwybodaeth am berfformiad a sicrhau ansawdd

4.16 Roedd gwybodaeth am reoli yn cael ei defnyddio i fesur rhai agweddau ar berfformiad, ond nid oedd hyn yn ddigon systematig i wella ansawdd y gwasanaethau i blant a theuluoedd. Gwnaeth yr arolygwyr gydnabod y sylw agos a rheolaidd yr oedd uwch-swyddogion ac aelodau etholedig yn ei roi i ddangosyddion perfformiad allweddol, a bod y cyngor wedi adrodd bod ei berfformiad yn gadarnhaol yn bennaf a/neu'n gwella yn hynny o beth.

4.17 Roedd gan reolwyr fynediad at data perfformiad drwy swyddog perfformiad penodedig ac adroddiadau unigryw, ac roedd y system wybodaeth yn galluogi mwy o gynnydd drwy ddatblygu adroddiadau ymhellach. Er bod gweithgarwch archwilio diweddar wedi cael ei nodi, roedd yr arolygwyr yn pryderu ynglŷn â sut roedd perfformiad, megis perfformiad yn ymwneud ag ail-atgyfeiriadau ac asesiadau, yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i herio arferion yr awdurdod. Roedd yn siomedig bod llawer o staff gweithredol o'r farn mai rhywbeth ar gyfer y rheolwyr oedd gwybodaeth am berfformiad, yn hytrach nag yn fodd o wella profiad plant a phobl ifanc.

4.18 Roedd y rheolwyr yn cydnabod nad oedd y dulliau sicrwydd ansawdd cyffredinol wedi'u datblygu'n ddigonol ac roeddent wrthi'n cyflwyno fframwaith newydd a fyddai'n gwella'r gwaith o lywio dadansoddiadau o effeithiolrwydd y gwasanaeth. Bydd angen ymgorffori hyn fel busnes craidd ar bob lefel ar draws y gwasanaeth. Datblygwyd uned ddiogelu'n ddiweddar, gan gynnwys rheolwyr diogelu a'r gwasanaeth swyddogion adolygu annibynnol, ac ystyriwyd hyn yn ffordd gadarnhaol o gefnogi goruchwyliaeth fwy effeithiol o ansawdd arferion gweithredol, ond roedd hyn yn dal i fod yn y camau cynnar.

4.19 Roedd y cyngor yn datblygu strategaethau i sicrhau bod ganddo ddiwylliant dysgu parhaus. Mynegodd y rhan fwyaf o'r staff a gafodd gyfweiliad gennym farn gadarnhaol ynghylch argaeledd/hygyrchedd hyfforddiant ffurfiol a gofynnol, a gwnaeth arolygwyr gydnabod ymrwymiad cryf y cyngor i ddysgu a datblygu. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau cyfundrefnol wedi cael eu datblygu digon ar draws y gwasanaeth i gofnodi a lledaenu'r hyn a ddysgwyd yn fwy eang o arferion gwaith cymdeithasol a mecanweithiau adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Bydd yn bwysig sicrhau bod gwasanaethau CID/gwasanaethau trosglwyddo yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddysgu ehangach ynglŷn â gwasanaethau plant. Nodwyd bod y swyddog cwynion yn mynychu cyfarfodydd y tîm gwaith cymdeithasol yn chwarterol i edrych ar y gwersi a ddysgwyd. Gwnaeth llawer o'r cwynion a welwyd gan yr arolygwyr adleisio'r pryderon ynglŷn â newid gweithwyr cymdeithasol yn aml a'r diffyg cyfathrebu, a dylai'r wybodaeth hon lywio'r ad-drefniad arfaethedig o'r gwasanaethau.

## Gweithlu

4.20 Roedd y cyngor wedi cyflwyno nifer o newidiadau i helpu staff i weithio'n hyblyg a hefyd i wella cyfathrebu a chreu hunaniaeth gryfach i'r gwasanaeth plant. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys cyflwyno gweithio ystwyth, a oedd yn helpu staff i gyrchu a mewnbynnu gwybodaeth wrth iddynt weithio o amrywiaeth o leoliadau, a hefyd adleoli staff i un swyddfa yn y Fflint. Croesawodd y staff y datblygiadau hyn, ac roedd llawer ohonynt yn gallu gweld buddiannau posibl. Nododd rhai ohonynt mai gweithio ystwyth oedd un o'r rhesymau roeddent wedi aros gyda'r cyngor.

4.21 Fodd bynnag, gwnaeth y staff a'r rheolwyr hefyd nodi bod y swyddfa gynllun agored, yn ogystal â gweithio ystwyth, wedi arwain at hunaniaeth dameidiog i'r tîm, gan nodi eu bod wedi colli cymorth gan gymheiriaid a chyfleoedd datblygu staff. Nid oedd y cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu fel tîm yn gyson ar draws y gwasanaeth, ond gwnaeth yr amgylchedd gwaith effeithio ar hyn hefyd. Dywedodd y rheolwyr eu bod yn ei chael yn anoddach goruchwyllo'r tîm a chynnal eu morâl.

### Dyfyniadau gan staff

*"Mae gweithio ystwyth wedi gwella perthnasau â thimau eraill. Rydw i wedi gweld eisiau'r cymorth a geir gan gymheiriaid mewn lleoliad llai o faint."*

*"Mae'r ethos hwn o fod yn dîm wedi cael ei effeithio gan y broses weithio ystwyth, ac yn fy marn i mae wedi lleihau'r cymorth parhaus gan gymheiriaid sydd ei angen o fewn yr amgylchedd gwaith hwn."*

*"Mae cyfleoedd da am ddatblygiad proffesiynol yn Sir y Fflint, ond er ei fod yn hawdd symud i'r tîm dyletswydd, nid yw symud allan i dîm arall mor hawdd!"*

### Dyfyniad gan weithiwr asiantaeth

*"Mae cymorth gweinyddol da iawn fan hyn a morâl cadarnhaol – byddwn i'n hoffi cael swydd barhaol yma."*

4.22 Nid oedd y cysyniad o hunaniaeth i wasanaethau plant yn ei gyfanrwydd yn cael ei ystyried fel rhywbeth a estynnwyd i gynnwys y tîm CID. Rheolid y gwasanaeth hwn drwy wasanaethau oedolion, ac roedd bellach wedi'i leoli i ffwrdd o wasanaethau plant. Roedd staff yn deall ac yn gwerthfawrogi'r nod o hybu trosglwyddiadau di-dor i wasanaethau oedolion. Fodd bynnag, mae gan weithwyr cymdeithasol yn y tîm CID a'r tîm trosglwyddo gyfrifoldeb lwyth achos dros ddarparu pob agwedd ar wasanaethau statudol plant, ar gyfer plant anabl ac unrhyw frodyr neu chwirydd yn eu teulu. Roedd y staff yn ystyried y symudiad i ffwrdd o wasanaethau plant, felly, yn rhywbeth a allai fod wedi gwanhau cysylltiadau aml-asiantaeth a mynediad y staff at gyngor a chymorth proffesiynol. Roedd hon yn enwedig yn broblem o ystyried bod y capasiti i reoli gofal plant wedi cael ei leihau yn y tîm.

4.23 Bydd angen i'r cyngor werthuso effaith y newidiadau hyn â'r staff a'r defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau nad oes lleihad yn yr egwyddor bod plant ag anabledd yn blant yn gyntaf, a bod amseroldeb ac ansawdd y gwasanaeth yn adlewyrchu arferion gorau.

4.24 Tynnwyd sylw at recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol fel un o gryfderau gwasanaethau plant, ac roedd y rhan fwyaf o'r timau gwaith cymdeithasol yn cynnwys cymysgedd da o brofiad a staff cymwys, ac roedd llawer ohonynt wedi gweithio i'r awdurdod ers blynyddoedd llawer. Cyflogwyd nifer fach o staff asiantaeth profiadol, ond roedd y rhain yn bennaf er mwyn diwallu galwadau gwasanaeth ychwanegol neu absenoldebau staff. Nid oedd hyfforddiant rhagweithiol na hyfforddiant ar gyfer gweithwyr asiantaeth er mwyn sicrhau eu bod yn deall polisiau a gweithdrefnau Sir y Fflint. Yr adborth a gafwyd gan y staff yn gyffredinol oedd bod gan Sir y Fflint enw da, ac roedd yn lle cadarnhaol i weithio ynddo, ac roedd y staff yn gwerthfawrogi'r ffaith bod yr awdurdod yn hybu cydbwysedd da o ran bywyd a gwaith.

4.25 Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gafodd gyfweiliad gennym fod eu baich gwaith yn ddichonadwy o ran maint a chymhlethdod, ond roeddent o dan bwysau cynyddol. Roedd y staff o'r farn nad oedd gofynion eu llwythi achosion bob amser yn glir nac yn cael eu cydnabod digon gan yr uwch-reolwyr, oherwydd yn aml roedd achosion plentyn mewn angen yn cael eu cofnodi ar sail un plentyn. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael cymorth i reoli gofynion eu gwaith gan eu rheolwyr, ac roeddent yn teimlo bod y rheolwyr ar draws y gwasanaeth yn barod i wrando ac yn ymatebol. Goruchwyliid gweithwyr cymdeithasol yn rheolaidd gan yr uwch-ymarferwyr. Dywedodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr cymdeithasol fod goruchwyliaeth yn ddigon rheolaidd ac o ansawdd da. Dangosodd adolygiad yr arolygydd o'r cofnodion fod y cofnodion yn bennaf yn dangos trafodaethau am achosion sy'n canolbwyntio ar dasgau, er bod fformat cynhwysfawr ar gyfer goruchwyliaeth, gan gynnwys anghenion hyfforddiant a datblygiad.

### Dyfyniadau o arolwg staff

*"Mae swydd yr uwch-ymarferydd wedi'i gohirio, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar y tîm."*

*"Mae colli rheolwyr profiadol yn ansefydlogi'r amgylchedd gwaith a morâl."*

*"Mae cyfarfodydd tîm yn cael eu rhuthro, ac nid oes lle i fyfyrion am arferion a dysgu o waith achos."*

4.26 Nodwyd bod gwendidau sylweddol ar lefel y rheolwr tîm a'r uwch-ymarferydd ar draws pob un o'r timau. Roedd yr oruchwyliaeth a gafodd y rheolwyr tîm a'r uwch-ymarferwyr yn llai rheolaidd, a dywedwyd ei bod yn aml yn wan oherwydd gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Hefyd, nid oedd hyfforddiant cynefino rhagweithiol na rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff sy'n symud i'r rôl rheolwr. Nid oedd gan uwch-reolwyr gyfle i gwrdd fel grŵp gyda rheolwyr tîm neu fel cymheiriaid, ac roedd hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd am ddysgu a chymorth a rennir.

4.27 Mynegodd y rheolwyr a'r staff bryderon cynyddol bod y lleihad cyffredinol mewn amser a phrofiad y rheolwyr yn cael effaith gynyddol ar gadernid a diogelwch y gwasanaeth. Roedd yr arolygwyr o'r farn y dylai uwch-swyddogion werthuso anghenion rheolaeth y gwasanaeth a sicrhau nad yw'r swyddi gwag presennol yn effeithiol ar ansawdd y gwasanaethau y mae plant a theluoedd yn eu derbyn.

## Atodiad

### Gwybodaeth ynghylch yr arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad o'r awdurdod lleol o dan Bennod 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

### Methodoleg

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod yr wythnosau'n dechrau ar 25 Mai 2015 a 1 Mehefin 2015.

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy edrych ar brofiadau plant a phobl ifanc unigol. Gwnaed hyn drwy gyfuniad o olrhain achosion ac adolygu ffeiliau achos.

Casglwyd dystiolaeth ychwanegol drwy adolygu dogfennau, gan gynnwys arolwg staff, cofnodion goruchwyllo a dogfennau cwyno.

Hefyd, cynhaliwyd amrywiaeth o gyfweiliadau unigol a grwpiau ffocws gydag uwch-reolwyr a rheolwyr gweithredol, aelodau etholedig, asiantaethau partner, uwch-ymarferwyr, gweithwyr cymdeithasol, a staff cymorth.

Gwnaethom adolygu/olrhain 50 o ffeiliau achos. Roedd hyn yn cynnwys 15 o gyfweiliadau gyda staff/gweithwyr proffesiynol eraill, chwech o gyfweiliadau â theuluoedd, a/neu arsylwi'n uniongyrchol ar arfer.

### Y tîm arolygu

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys pedwar arolygydd a gyflogir gan AGGCC.

Prif arolygydd: Katy Young

Arolygwyr tîm: Pam Clutton, Rob Gifford, Bobbie Jones